Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Gwasanaeth cyn-ysgol Trefaldwyn**

**Canolfan Weithgareddau Trefaldwyn**
**Church Bank**
**Trefaldwyn**
**SY15 6QA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 23 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd gwasanaeth cyn-ysgol Trefaldwyn yn 2017. Mae'n darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 19 o blant. Yr unigolyn cyfrifol yw Nia Jones a'r person â gofal yw Katie Emberton sydd ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn neuadd pentref yn Nhrefaldwyn. Mae ar agor rhwng 9am a 12pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn bennaf, darperir gofal trwy gyfrwng y Saesneg a defnyddir y Gymraeg yn achlysurol.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae gwasanaeth cyn-ysgol Trefaldwyn yn darparu amgylchedd cynnes a meithringar i'r plant lle cânt eu cefnogi i dyfu, datblygu a chael hwyl. Darperir amrediad da o deganau ac adnoddau i'r plant, sy'n hawdd iddynt eu cyrraedd. Mae gan y plant lais ac maent yn rhydd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac, ar y cyfan, maent yn dod yn annibynnol. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu gan grŵp o staff gofalgar a sylwgar. Caiff iechyd a diogelwch y plant eu hyrwyddo. Fodd bynnag, mae angen i'r arweinwyr ddatblygu systemau a gweithdrefnau da i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn esmwyth mewn perthynas â rheoliadau. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw ac mae'n darparu gofod diogel ac addas i'r plant chwarae a dysgu.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sylwi ar nifer o broblemau mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau a diffyg goruchwyliaeth staff. Ers yr ymweliad, rydym wedi derbyn polisïau a gweithdrefnau diwygiedig a chadarnhad o sesiynau goruchwylio staff.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed nifer o argymhellion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth a chaiff y rhain eu hamlinellu yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth ac mae ganddynt berthnasau da â'r plant eraill a'r staff. Mae’r plant yn cael amrediad o brofiadau chwarae a dysgu sy’n eu hannog i ddysgu ac i gael hwyl. Gallai'r plant gael rhagor o gyfleoedd i hyrwyddo eu hannibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau.

Mae’r plant yn rhydd i ddewis chwarae gyda pha bynnag deganau ac adnoddau y dymunant yn y cyfnodau chwarae rhydd. Gwnaethant symud o gwmpas rhwng gweithgareddau strwythuredig neu rhwng y llawr a gweithgareddau pen bwrdd, yn ogystal â chwarae yn yr awyr agored. Gofynnwyd i un plentyn a oedd yn dymuno paentio a dywedodd 'nac ydw' yn hyderus. Rhoddwyd dewis i'r plant chwarae yn yr awyr agored, a gallent symud o gwmpas yn rhydd rhwng yr ystafell chwarae a'r ardal awyr agored. Roedd y plant yn mynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau, megis gofyn i chwarae â theganau penodol a mynd i'r toiled.

Mae gan y plant lais.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd ac yn mwynhau chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Roedd y plant yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, a gwnaethant ymgartrefu'n gyflym. Yn ôl pob golwg, roedd y plant yn gyfforddus yn archwilio eu hamgylchoedd gyda sicrwydd gan staff. Roedd gan y plant berthnasau da â'u gofalwyr ac roeddent yn ymlaciedig ac yn hapus yn eu cwmni. Roedd llawer o wenu a phiffian chwerthin wrth i'r plant chwarae ac archwilio eu hamgylchedd yn weithredol, gan ddangos eu bod yn hapus ac yn hyderus. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, megis amser cofrestru, amser cylch ac eistedd i fwyta byrbryd.

Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel, yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae’r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, a sut i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro.

Roedd y plant yn cydweithredu, yn ymddwyn yn dda, a bron pob un yn rhyngweithio’n dda gyda’r plant eraill a’r staff. Roedd y plant yn hapus i chwarae ochr yn ochr â'i gilydd neu'n ymuno â chwarae ei gilydd fel roeddent yn dymuno. Gwelsom grŵp o blant yn cymryd eu tro yn y pwll tywod, gan atgoffa ei gilydd faint o blant a oedd â'r hawl i fod yno ar yr un pryd. Gwelwyd dau blentyn yn cymryd eu tro i fynd ar degan gyrru, gan biffian chwerthin wrth wthio ei gilydd ar y tegan. Roedd yn well gan un plentyn chwarae ar ei ben ei hun; gwelwyd staff yn gwirio'r plentyn, gan sicrhau ei bod yn iawn.

Mae’r plant yn cydweithio’n dda â’i gilydd, neu’n dysgu sut i wneud hynny.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau wedi'u cynllunio a gweithgareddau rhydd sy'n llawn hwyl ac yn eu hannog i ddysgu.

Roedd y plant yn brysur ac wedi ymgolli yn eu chwarae, boed yn chwarae rhydd neu’n weithgaredd a gynlluniwyd. Treuliodd grŵp o blant gryn amser yn chwarae yn yr awyr agored gyda detholiad eang o offer chwarae, gan gynnwys ceir gyrru, beiciau a llithren. Anogwyd un plentyn i ddatrys problemau trwy symud offer o'r ffordd fel y gallai yrru i lawr y bryn. Roedd y plant yn gallu dylanwadu ar y gweithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt; dangosodd un plentyn ddiddordeb mewn paentio, felly rhoddwyd papur a phaent iddo.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Roedd y gweithgareddau cynlluniedig a ddarperir a threfn y grŵp chwarae yn cefnogi datblygiad cyffredinol y plant.

Roedd y plant yn profi gweithgareddau a chwarae a oedd yn briodol ar gyfer oedrannau a chyfnodau gwahanol trwy gydol y sesiwn, a oedd yn cefnogi datblygu sgiliau gwahanol. Roedd y plant yn ymarfer sgiliau echddygol manwl ac roeddent yn greadigol. Roedd y plant yn dod yn annibynnol oherwydd darperid cyfleoedd iddynt allu ymarfer hyn, yn unol â'u hoedran, megis helpu eu hunain i blatiau o ffrwythau a oedd wedi'u gosod yng nghanol pob bwrdd. Yn ogystal, roedd y plant yn golchi eu dwylo ac roedd rhai'n defnyddio'r toiled yn annibynnol. Weithiau, anogwyd y plant a oedd yn mynd a dod o'r tu allan i hongian eu cotiau.

Mae'r plant yn datblygu'n dda a chaiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff wedi ymroddi i gadw’r plant yn ddiogel ac iach. Mae'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn rheoli rhyngweithio'r plant yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod y plant sydd dan eu gofal yn dda ac maent yn gallu diwallu eu hanghenion unigol. Mae’r staff wedi ymroddi i ddarparu gofal da ac i gynorthwyo’r plant i dyfu a chyflawni eu potensial llawn.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, yr oedd gan y staff ddealltwriaeth dda ohono pan ofynnwyd iddynt. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amrediad o gyrsiau a oedd yn helpu i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach, gan gynnwys hylendid bwyd, cymorth cyntaf ac amddiffyn plant. Roedd staff yn hybu bwyta'n iach trwy annog rhieni i ddarparu ffrwythau i'w plentyn eu bwyta fel byrbryd. Roedd dŵr ffres ar gael i'r plant. Aethpwyd i'r afael ag alergeddau yn briodol ac yn ddiffwdan. Roedd y staff yn annog y plant i fod yn gorfforol egnïol trwy fynd â nhw allan i chwarae yn rheolaidd. Anogid y plant i olchi eu dwylo cyn iddynt fwyta, fel y gwnaeth y staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr holl blant yn defnyddio'r un tywel i sychu eu dwylo. Yn ogystal, roedd staff yn dilyn arferion rheoli heintiau eraill, megis sychu'r byrddau gyda chwistrell wrthfacterol. Roedd cofnodion digwyddiadau a damweiniau’n cynnwys manylion trylwyr ond nid oedd rhieni bob amser yn eu llofnodi.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach fel mater o drefn.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae’r staff yn defnyddio dulliau cadarnhaol i reoli ymddygiad plant ac maent yn fodelau rôl cadarnhaol.

Roedd y staff yn rheoli ymddygiad y plant yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y grŵp chwarae, sy'n nodi y dylid ymdrin ag ymddygiad mewn modd cadarnhaol. Roedd y staff yn canmol y plant er mwyn eu hannog yn ogystal ag yn eu gwobrwyo am gwblhau tasg neu weithred, gan ddweud "Da iawn am aros" a phan roddwyd cymorth i blentyn gwblhau tasg, dywedodd y staff, "Rwyt ti'n gwneud jobyn da iawn. O, dw i'n hoff iawn ohono!"

Atgoffodd y staff y plant i fod yn garedig a phan dynnodd un plentyn feic oddi wrth plentyn arall, esboniodd y staff y gallai gael tro ar ôl i'r plentyn arall orffen ag ef. Roedd y staff yn adnabod y plant roeddent yn gweithio gyda nhw'n dda ac yn gwybod beth roedd y plant yn ymateb iddo, yn ogystal â beth oedd yn eu cynhyrfu, yn enwedig y plant hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn creu amgylchedd cynnes a meithringar ac yn rhoi amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu i'r plant sy'n eu hannog i gael hwyl wrth ddysgu a datblygu.

Roedd y staff yn ymatebol i anghenion unigol y plant. Roedd y staff wedi mynd at weithwyr proffesiynol eraill am gyngor a chymorth mewn achosion lle roedd gan blant anghenion penodol, er mwyn ceisio gwella eu canlyniadau. Roedd staff yn cefnogi'r plant i ddysgu'r Gymraeg. Er enghraifft, trafodwyd y tywydd yn Gymraeg a, phan ymatebodd plentyn yn Gymraeg, fe'i canmolwyd. Roedd gweithgareddau wedi'u cynllunio ac roedd y cynlluniau canol tymor yn nodi deilliannau dysgu, ac roedd y rhain wedi'u teilwra i'r cynllunio o ddydd i ddydd. Roedd cofnodion datblygu yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Roedd y staff yn hybu chwarae a dysgu'r plant yn effeithiol, ac maent yn gymwys wrth ddiwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r grŵp chwarae yn olau, yn lliwgar ac wedi'i addurno'n dda. Mae'r plant yn rhydd i fynd at amrediad da o deganau, offer ac adnoddau. Darperir digon o ddodrefn o faint sy'n addas at ddefnydd y plant. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd, ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw'n rheolaidd ar gyfleusterau ac offer, er diogelwch y plant.

Roedd yr ystafelloedd yn lân, yn gymen ac mewn cyflwr da. Roedd drws ffrynt y ganolfan dan glo. Roedd yn rhaid i ymwelwyr bwyso'r seiniwr a byddai staff yn dod i'w casglu. Defnyddid llyfr ymwelwyr i gofnodi presenoldeb pob ymwelydd yn y feithrinfa. Roedd ardal yr ardd yn gaeedig ac yn cael ei chynnal a'i chadw. Roedd y plant a'r staff wedi cynnal ymarferiadau tân yn rheolaidd. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau, gan gynnwys ymweliadau. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru'r rhain.

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol wrth wirio bod yr amgylchedd yn ddiogel i blant.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r plant yn gallu chwarae mewn ystafelloedd gwahanol ac yn yr ardal awyr agored.

Roedd y brif ystafell yn eang ac yn darparu ardaloedd i'r plant chwarae mewn ffyrdd gwahanol. Fe'i trefnwyd i greu ardaloedd gwahanol yn seiliedig ar fathau gwahanol o chwarae, megis cornel wedi'i neilltuo i chwarae anniben/creadigol ac ardal ddarllen â charped gyda seddi meddal lefel isel. Roedd teganau ac adnoddau yn cael eu storio mewn unedau storio y gallai'r plant fynd atynt yn hawdd, ac roeddent wedi'u labelu â lluniau a geiriau fel y gallai'r plant wybod ble roedd popeth. Roedd y plant yn gallu storio eu heiddo ar fachau gyda'u henwau arnynt. Roedd yr ystafell ymolchi yn cynnwys sinciau a thoiledau lefel isel. Roedd holl ardaloedd y grŵp chwarae wedi'u haddurno'n dda.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiddorol, yn ysgogol ac yn groesawgar.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r plant yn cael mynediad at amrywiaeth o deganau a chyfarpar o dan do ac yn yr ardal awyr agored.

Roedd amrediad o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant, megis teganau adeiladu a blociau, yn ogystal ag ardal archwilio. Roedd seddi a byrddau lefel isel ar gael er mwyn i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd neu fwyta. Roedd gan yr ardal awyr agored amrediad eang o deganau ac offer i'r plant ddefnyddio rhywfaint o’u hegni. Roedd beiciau, peli, llithrennau a theganau gyrru. Roedd y teganau, yr adnoddau a'r offer o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

Mae’r arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd uchel, sydd mewn cyflwr da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Nid yw staff yn cael eu harwain a'u rheoli yn gwbl effeithiol, a chanfuom fod angen gwneud gwelliannau i rai meysydd mewn perthynas â systemau rheoli cyfredol a throsglwyddo rolau a chyfrifoldebau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Er bod datganiad o ddiben ar waith, nid oedd yn cynnwys gwybodaeth ddiweddar ynghylch y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar hyn o bryd. Er bod polisïau ar waith, roedd angen diweddaru'r rhain. Roedd trafodaethau â'r person â gofal a oedd yn cyflenwi'n dangos nad oedd yn llwyr ymwybodol o'i rôl mewn perthynas â gweithredu'r rheoliadau ar draws y ddarpariaeth. Roedd hefyd yn amlwg nad oedd yn cael ei chefnogi'n llawn yn ei rôl gan yr unigolyn cyfrifol.

Nid yw'r arweinyddiaeth yn gwbl effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr wedi dechrau rhoi systemau ar waith ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio i wneud gwelliannau.

Nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal eto, ond maent wedi dechrau casglu gwybodaeth gan rieni. Disgwylir adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu. Caiff trafodaethau eu cynnal bob dydd â rhieni, ac ymdrinnir ag unrhyw faterion y pryd hwnnw.

Mae'r gwasanaeth yn dechrau meddu ar systemau effeithiol ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod ganddynt fecanweithiau da ar waith i reoli'r staff yn effeithiol.

Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd staff, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd. Fodd bynnag, ers yr arolygiad rydym wedi derbyn tystiolaeth i ddangos bod hyn bellach ar waith. Cedwid ffeiliau ar gyfer pob aelod o staff a oedd yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth. Nid oedd yr arweinwyr bob amser yn cydymffurfio â'r rheoliadau am fod peth gwybodaeth ar goll

yn y ffeiliau staff. Er enghraifft, nid oedd rhai ffeiliau staff yn cynnwys prawf hunaniaeth, ffotograffau na dau eirda.

Nid yw'r gwaith o reoli'r staff yn ddigon effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn ceisio gwybodaeth briodol gan rieni am anghenion eu plant.

Gwnaethom siarad â rhieni a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus gyda’r gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y plant a chanfod bod yr wybodaeth berthnasol mewn perthynas â gwybodaeth ac anghenion personol y plant ar waith. Roedd arweinwyr yn rhoi adborth ar lafar i rieni ar ddiwedd pob sesiwn. Gwelsom fod perthnasau da wedi'u datblygu rhwng y staff a rhieni.

Dywedodd arweinwyr wrthym fod gan y gwasanaeth berthnasau da ag athrawon y cyfnod sylfaen a’u bod yn gweithio’n agos gyda’i gilydd wrth asesu datblygiad y plant.

Mae partneriaethau'n briodol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sefydlu system i bob aelod o staff dderbyn sesiynau goruchwylio yn fwy rheolaidd ac arfarniadau blynyddol
- Mae angen hysbysu AGC mewn da bryd am unrhyw newidiadau i oriau gweithredu a newidiadau staffio. Mae angen diwygio’r arfer hylendid o ddefnyddio un tywel ar gyfer yr holl blant.
- mae angen adolygu'r arferion hylendid o ddefnyddio un tywel ar gyfer yr holl blant
- Mae angen rhoi systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw un sy'n cyflenwi rolau yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Mae angen adolygu ffeiliau staff
- Mae angen i rieni yn ogystal â staff lofnodi'r ffurflenni damweiniau
- Mae angen i blant gael mynediad at ddŵr yfed trwy gydol y sesiwn

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth yr ymweliad hefyd archwilio'r trefniadau diogelu plant o ganlyniad i AGGCC yn derbyn cwyn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau nad yw hyn bellach yn broblem:

- Cynhaliodd AGC ymweliad â'r gwasanaeth: cwblhaodd un arolygydd yr ymweliad ar 24 Mai 2018
- Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 25 Mai 2018
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau yn ystod yr ymweliadau
- gwnaethom arsylwi ar y plant yn chwarae a rhyngweithio'r staff â'r plant
- Gwnaethom siarad â'r plant, y staff a rhieni

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolion Cyfrifol | Nia Jones |
| Person â Gofal | Katie Emberton |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 3–4 blwydd oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 12pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers cofrestru |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 24 Mai 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |